

EDF RENEWABLES UK YN DATGELU PARC YNNI ADNEWYDDADWY YNG NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT

Mae EDF Renewables UK yn bwriadu datblygu prosiect ynni adnewyddadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot, ger y Creunant a Blaendulais. Gallai'r prosiect – Parc Ynni Adnewyddadwy Hirfynydd – fod â chapasiti gosodedig o 100 MW, digon o drydan gwyrdd ar gyfer dros 40,000 o gartrefi*.

Mae EDF Renewables UK yn bwriadu datblygu cymysgedd o dechnolegau ar y safle, gan gynnwys fferm wynt o hyd at saith tyrbîn, fferm solar a storfa batris. Mae cael amrywiaeth o dechnolegau yn cynyddu faint o ynni y gellir ei gynhyrchu ar y safle mewn tywydd gwahanol, gyda storfa batris yn caniatáu i ynni dros ben gael ei storio i ddarparu gwasanaethau cydbwysu grid.

Dywedodd Simon Morgan, Prif Reolwr Datblygu Prosiectau yn EDF Renewables UK: “Byddai Hirfynydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'n hymdrechion i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ar adeg o ansicrwydd byd-eang ynghylch cyflenwad a chostau ynni, mae prosiectau ynni adnewyddadwy yn hanfodol er mwyn ymdrin â'r heriau hyn. Rydym yn falch o fod yn datblygu Hirfynydd mewn partneriaeth â thri theulu lleol o ffermwyr a byddwn yn gweithio gyda'r gymuned i sicrhau y gall y prosiect ddod â buddion lleol, fel cronfa gymunedol a pherchnogaeth leol.”

Mae EDF Renewables UK wedi bod yn cynnal astudiaethau ecolegol cynnar ac astudiaethau dichonoldeb eraill. Bydd digwyddiadau i rannu gwybodaeth a chael adborth cynnar gan bobl sy'n byw'n lleol yn cael eu cynnal yn y Creunant a Blaendulais ym mis Medi, ac yn y cyfamser, bydd EDF Renewables UK yn cyflwyno adroddiad cwmpasu i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru. Bydd cais i godi mast meteorolegol – i gasglu data cyflymder gwynt – hefyd yn cael ei gyflwyno i Gyngor Sir Castell-nedd Port Talbot.

Mae EDF Renewables UK yn gobeithio cyflwyno cais cynllunio ar gyfer Parc Ynni Adnewyddadwy Hirfynydd tua diwedd 2023. Bydd y cais yn cael ei asesu gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru, gyda phenderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.

Diwedd**Nodiadau i olygyddion**

Ym mis Medi, cynhelir Diwrnodau Gwybodaeth i'r Cyhoedd gan dîm prosiect EDF Renewables UK mewn cymunedau ger safle'r fferm wynt arfaethedig er mwyn i bobl leol gael gwell dealltwriaeth o'r cynigion a rhoi adborth cychwynnol. Bydd modelau meddalwedd gweledol 3D rhyngweithiol ar gael yn yr arddangosfa fel y gall trigolion gael argraff o sut olwg fyddai ar y datblygiad arfaethedig o wahanol onglau a safbwyntiau.

Gwynt ar y tir ac ynni solar yw'r ffyrdd mwyaf cost effeithiol o gynhyrchu trydan erbyn hyn.

*Defnydd cyfartalog cartrefi o'r defnydd o ynni yn y DU 2021 - GOV.UK (www.gov.uk), ECUK 2021: Tablau data treuliant (OCU), tabl C9 - Domestig; defnydd cyfartalog (2020) o 3,954 kWh (tymheredd wedi'i gywiro). <https://www.gov.uk/government/statistics/energy-consumption-in-the-uk-2021>

EDF Renewables

Mae EDF Renewables UK and Ireland (www.edf-re.uk) yn is-gwmni i EDF Group, un o gwmnïau trydan carbon isel mwyaf y byd, ac mae ein buddsoddiad a'n harloesedd yn dod â buddion sylweddol i gymunedau. Gyda'n portffolio gweithredu o 38 o safleoedd ynni adnewyddadwy gan gynnwys batri, gwynt ar y tir ac ar y môr (cyfanswm o 1 GW)

rydym yn darparu trydan carbon isel y mae mawr ei angen. Mae gennym bortffolio sy'n ehangu gyda bron i 5 GW o brosiectau wrthi'n cael eu cynllunio a datblygu, gan gynnwys ynni gwynt, batri a PV solar.

Am ragor o wybodaeth

Lindsey Southworth lindsey.southworth@edf-re.uk

Pennaeth Materion Allanol, EDF Renewables UK
07813 230379

Angharad Davies angharad@cadnocomms.co.uk

Cyfarwyddwr, Cadno Communications
07918 722080

<http://www.edf-re.uk/our-sites/hirfynydd>